CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Pwyllgor Dibenion Cyffredinol
## (Adolygwyd Mehefin 2025)

## Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl

1. Yn unol â darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r is-ddeddfau (Is-ddeddf 5 (5.4)), mae'r Cyngor wedi ffurfio Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, a fydd yn cynnwys y personau canlynol, sef:

   i. Aelodau *ex officio:* Y Llywydd (a fydd yn Gadeirydd)
   ii. Pump aelod sydd wedi cael eu penodi gan y Cyngor o blith y Gymrodoriaeth;
   iii. Unrhyw berson neu bersonau eraill sydd ddim yn fwy na dau, y mae'r Pwyllgor yn meddwl sydd yn addas i'w cyd-ethol fel aelodau.

2. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd y Cadeirydd yn penodi aelod o'r Pwyllgor a fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

3. Y Cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor fydd tri.

4. Bydd aelodau sydd yn cael eu penodi a'u cyd-ethol yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd, neu am gyfnod byrrach fel y gallai'r corff penodi benderfynu. Byddant yn gymwys i wasanaethu am ddim mwy na dau dymor yn olynol, ac ar ôl hynny, bydd cyfnod pellach o dair blynedd yn mynd heibio cyn y bydd unrhyw aelod o'r fath yn gymwys i gael ei ailbenodi.

5. Bydd y Pwyllgor, wrth benodi aelodau, yn ymwybodol o ymrwymiad y Gymdeithas i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gymdeithas.

6. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter Frenhinol a'i is-ddeddfau, bydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol yn cynghori'r Cyngor ar Raglen Ddigwyddiadau'r Gymdeithas, ac yn cyflawni swyddogaethau eraill yn unol â Chyfarwyddiadau'r Cyngor.

7. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o wybodaeth i alluogi iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

8. Bydd y Pwyllgor yn adolygu Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Pwyllgor bob dwy flynedd.

9. Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Datblygu Ymchwilwyr i ddarparu cynllun strategol y Gymdeithas, i greu amgylchedd sy'n cefnogi arbenigwyr presennol Cymru ac arbenigwyr y dyfodol.

10. Bydd y Pwyllgor yn ymarfer y pwerau dirprwyedig a allai gael eu rhoi iddo gan y Cyngor, am gyfnod o'r fath ac o dan delerau o'r fath y gall y Cyngor benderfynu arnynt, yn unol ag is-ddeddf 5.4.

## Blaengynllun Busnes

a) Eitemau safonol ar gyfer pob cyfarfod:

- Cyflwyniad y Cadeirydd
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Tracio Camau Gweithredu
- Diweddariad o Weithgareddau a Digwyddiadau'r Gymdeithas
- Dyddiadau cyfarfodydd
- Unrhyw Fater Arall

b) Eitemau sydd yn cael eu penderfynu gan flaengynllun y Pwyllgor llywodraethu neu eitemau eraill:

- Mewnbwn i gynlluniau digwyddiadau mawr penodol e.e. Cinio Blynyddol
- Mewnbwn i brosiectau mawr penodol e.e. Dadansoddiad o Astudiaeth Achos REF

Mae eitemau sydd yn digwydd bob blwyddyn yn cael eu rhestru isod:

| | |
|---|---|
| Mehefin | • Adolygu cynllun gweithredu blynyddol y Gymdeithas<br>• Adolygu Polisi Cyfryngau Cymdeithasol 2025 (bob dwy flynedd)<br>• + unrhyw eitemau ad hoc |
| Hydref | • Adolygu Medalau<br>• Diweddaru'r Cynllun Cyfathrebu<br>• + unrhyw eitemau ad hoc |
| Chwefror | • Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r amserlen o bwerau dirprwyedig i adrodd i'r Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu ym mis Mehefin<br>• + unrhyw eitemau ad hoc |

## Pwerau Wedi'u Dirprwyo i'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol

Yn amodol ar (a) gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod(ydd) perthnasol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, cofnod o'r holl gamau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd gan y Pwyllgor o dan y pwerau dirprwyedig canlynol; (b) darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r is-ddeddfau, (c) ystyried goblygiadau ariannol penderfyniadau, a (d) cyllideb ddigonol o fewn Amcangyfrifon o Incwm a Gwariant cymeradwy'r Gymdeithas i dalu am unrhyw gostau disgwyliedig:

B.1 Y pŵer i gymeradwyo awgrymiadau sy'n ymwneud â Rhaglen Digwyddiadau'r Gymdeithas.

B.2 Y pŵer i gymeradwyo awgrymiadau sy'n ymwneud â chyhoeddiadau'r Gymdeithas.

B.3 Y pŵer i gymeradwyo gorffen cytundebau gyda phersonau, sefydliadau, cyrff neu gymdeithasau eraill, a thelerau unrhyw gytundebau o'r fath.

B.4 Y pŵer i sefydlu a dyfarnu Gwobrau, yn unol â Strategaeth a Chyllideb y Gymdeithas.

B.5 Y pŵer i gymeradwyo cynigion sy'n ymwneud â medalau'r Gymdeithas.

B.6 Y pŵer i gymeradwyo cynigion sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar.

B.7 Y pŵer i ddirprwyo ymhellach, ar delerau o'r fath ac o dan amodau o'r fath ag y gall y Pwyllgor benderfynu, i'r Swyddogion Anrhydeddus (y Llywydd, y Dirprwy Lywyddion, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol), unrhyw un o'r pwerau hynny a ddirprwywyd i'r Pwyllgor fel yr amlinellwyd yn (B.1), (B.2), (B.3) a (B.4) uchod.